

Gwybodaeth i ymgeiswyr

Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac arholiadau/asesiadau



Image by Patrice Jones

Mae'r ddogfen hon wedi ei hysgrifennu i'ch helpu i aros o fewn rheoliadau arholi.

Dylech ei darllen yn ofalus.

Mae pawb ohonom yn hoffi rhannu ein profiadau wrth sefyll arholiadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried beth i'w ddweud ac i feddwl pa wybodaeth sy'n cael ei rhannu.

Gallai rhannu syniadau ar-lein ag eraill fod o gymorth wrth astudio neu adolygu.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau o ran faint o wybodaeth y gallech ei rhannu ac mae angen i chi ofalu nad ydych yn torri'r rheolau. Hoffem ofyn i chi ymddwyn yn gyfrifol wrth drafod ar-lein. Os ydych chi'n ansicr o'r hyn y gallech chi ei drafod ar-lein ynglŷn â'ch arholiadau, mae hi wastad yn syniad da gofyn i'ch athro.

Os ydych chi'n derbyn gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag asesiadau, neu rywbeth tebyg i hynny, trwy gyfryngau cymdeithasol neu trwy unrhyw gyfrwng arall, mae'n rhaid i chi hysbysu'ch athro neu aelod arall o staff. Rhaid i chi ddangos iddyn nhw'r hyn yr ydych chi wedi ei dderbyn. Byddan nhw wedyn yn rhoi gwybod i'r corff dyfarnu am yr achos a byddan nhw'n cynnal ymchwiliad.

Lle bo ymgeiswyr yn torri rheolau arholiadau, asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad, mae dyletswydd ar y cyrff dyfarnu i ymchwilio, a gallan nhw osod cosbau.



Image by Ben Wight

Dylech fod yn ymwybodol y gellir ystyried y canlynol fel camymddwyn:

- copïo neu ganiatáu i waith gael ei gopïo – h.y. rhoi gwaith ysgrifenedig ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol cyn arholiad/asesiad;
- cydgyllwynio: cydweithio ag ymgeiswyr eraill y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei ganiatáu;
- caniatáu i eraill helpu i gynhyrchu eich gwaith chi neu helpu eraill â'u gwaith nhw;
- cael deunydd cyfrinachol yn ymwneud ag asesiad yn eich meddiant cyn yr arholiad;
- cyfnewid, cael, derbyn neu drosglwyddo gwybodaeth am asesiad gan ddefnyddio unrhyw ddull cyfathrebu (hyd yn oed os ydynt yn ceisio gwneud hynny);
- peidio â rhoi gwybod i'ch canolfan am wybodaeth yn ymwneud ag asesiad yn cael ei rhannu ar-lein; neu
- rhannu sibrydion am gynnwys arholiad.

Mae cosbau'r cyrff dyfarnu yn cynnwys:

- rhybudd ysgrifenedig;
- colli marciau am adran, cydran neu uned;
- cael eich diarddel o uned, pob uned neu gymhwyster; neu
- cael eich gwahardd rhag sefyll asesiadau neu arholiadau am gyfnod penodol o amser.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â rheolau'r CGC:

http://www.cbac.co.uk/exam-officers/related-documents.html?category=jcqDocumentation&language_id=2

